# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 17 Rhagfyr 2025

**Yn Bresennol**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr J Hogg MBE, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd A Tinley, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Phil Barlow (Swyddog Ymchwil ac Arfarnu Cynaliadwyedd), Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Julie Garlick (Swyddog Cadwraeth), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Gayle Lister (Prif Gynllunydd, Polisi Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Sara Morris (Pennaeth Lle ac Ymgysylltu), Meurig Nicholas (Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Jake Taylor (Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad) ac Emma Thornton (Croeso Sir Benfro).

[Cyfarfod Ar-lein, 10.00am – 14.02pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Bowen a Mrs S Hoss.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro. Datganodd y Cynghorwyr B Price ac S Hancock fuddiant yn adroddiad 54/25, Croeso Sir Benfro. Datganodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall fuddiant yn adroddiad 55/25, Cytuno ar Gymorth i Ironman Cymru 2027-2029.

**Nodwyd.**

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

O ran cyhoeddiadau'r Cadeirydd, eglurodd y Cadeirydd bod y trafodaethau gyda Henry Tufnell AS ac Ystâd y Goron wedi bod yn ddau gyfarfod ar wahân.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hancock, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2025, yn amodol ar y newid uchod.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran y camau gweithredu ar y cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc, gofynnodd Aelod a oedd yr Awdurdod wedi partneru â Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Penfro i glustnodi'r bobl ifanc sydd yn ardal y Parc. Cytunodd y Prif Weithredwr i drafod gyda'r Swyddog perthnasol i glustnodi enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth neu i gyfleu awgrym yr Aelodau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Sawl cyfarfod gydag Aelodau'r Awdurdod i gynnal Adolygiad o'u Datblygiad Personol ac i ddod yn fwy cyfarwydd â'r Aelodau a'u wardiau.
- Cyfarfod Pob aelod o Staff yr Awdurdod lle cafodd gyfle i ddiolch i'r staff am eu gwaith caled gydol y flwyddyn.
- Y cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Partneriaeth a sefydlwyd i hwyluso'r gwaith o gyflawni Cynllun Partneriaeth yr Awdurdod.
- Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a'r Grŵp Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus.
- Cyfarfod Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol gyda Phrif Weithredwr yr Awdurdod.
- Lansio'r Cynllun Ynni Lleol oedd wedi derbyn ymateb cadarnhaol.
- Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol gan gynnwys cyfarfod i benodi'r Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Dr R Plummer am ei chyfraniadau a'i hymroddiad i'r Awdurdod gan fod ei thymor fel Aelod yn dod i ben ar yr 31ain o Ionawr 2026. Ychwanegwyd bod Dr R Plummer wedi dod yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.

Llongyfarchodd y Cadeirydd staff yr Awdurdod am Ddiwrnod Archaeoleg llwyddiannus arall, a chadarnhaodd bod recordiad o'r diwrnod ar gael ar-lein i'r rhai na allai fod yn bresennol ar y diwrnod.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod ef a'r Cynghorydd M Bowen wedi mynychu cyfarfod ynghylch briffiau cyflog gyda'r cyflogwyr a'r undebau llafur.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau eraill yr Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o nifer o gyfarfodydd Pwyllgor yr Awdurdod gerbron yr Aelodau i’w hystyried:

i. Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15/10/25.
ii. Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23/07/25.
iii. Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 24/09/25.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y pwyllgorau uchod.

**Nodwyd.**

**7. Cytundeb i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau paratoadol allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 3 newydd**
Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio (Polisi Strategol) adroddiad oedd yn ceisio cytundeb gan yr Aelodau i gynnal ymgynghoriad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd oedd yn ymgorffori'r Adroddiad Cwmpasu ar Asesiad Amgylcheddol Strategol, a'r papur ar y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft ar gyfer y CDLl3 newydd.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod y Cytundeb Cyflawni ar gyfer CDLl3 yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd o 2025 hyd at ddiwedd 2039 yn y cynllun. Cynigiwyd diwygio'r amserlen 15 mlynedd i 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2040 i gyd-fynd â'r cyfnod monitro blynyddol. Dywedwyd y byddai'r newid hwn yn golygu y byddai gofyn gwneud diwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni a'r asesiad cysylltiedig o’r effaith integredig.

Tynnodd y Swyddog sylw at wall yn y symbolau yn y tabl ar dudalen 30 o'r adroddiad ac eglurodd y byddai hynny yn cael ei gywiro cyn ei gyhoeddi.

Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd yr ymgynghoriad gan ei fod yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd gyfrannu a helpu i lywio’r CDLl nesaf.

Gan fod y CDLl yn gynllun hirdymor, awgrymodd yr Aelodau bod y ddogfen yn cyfeirio at effaith y newid yn yr hinsawdd ar y Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod yr Awdurdod wedi bod yn cynnal gwaith ymchwil ar hyd yr arfordir i ddeall sut y gallai newid hinsawdd effeithio ar y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol ac er y gallai argymhellion gweithredol ddeillio o'r ymarferiad hwnnw, mae'n annhebygol y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn y

cynllun gan fod y CDLl yn ddogfen lefel uchel. Ychwanegwyd y byddai’r Swyddogion yn datblygu polisïau ar addasu i'r effaith newid hinsawdd ar yr arfordir fel rhan o'r cynllun, fyddai'n ategu gwaith y tîm i ymateb i’r newid hinsawdd.

Awgrymodd Aelod bod targedau SMART yn cael eu defnyddio i sicrhau bod yr amcanion yn dal i fod yn realistig ac yn gyraeddadwy. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai targedau penodol yn cael eu gosod wrth i’r gwaith o ddatblygu’r CDLl fynd rhagddo, ac y byddai'r targedau hyn yn y pen draw yn cael eu cynnwys yn y fframwaith monitro. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â thargedau tai fforddiadwy a'r iaith Gymraeg, cadarnhawyd y byddai Swyddogion yn archwilio gwahanol opsiynau twf ar gyfer tai fforddiadwy yn y Parc ac yn ceisio datblygu polisïau fyddai'n gwneud y mwyaf o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Ychwanegwyd y byddai’r Swyddogion yn ceisio ymgorffori maen prawf ar gysylltiadau lleol ar gyfer tai fforddiadwy, ac y byddai'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu fel rhan o'r Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd ac fel rhan o asesiad ar wahân o’r effaith ar y Gymraeg.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** cytuno ar y canlynol:

i. Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori'r Adroddiad Cwmpasu ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Atodiad A), gan gynnwys atodiadau ar yr Adolygiad o’r Cynlluniau, Polisïau a’r Rhaglenni Perthnasol a Gwybodaeth Sylfaenol.
ii. Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft (Atodiad B).
iii. Diwygio’r dyddiad y daw’r Cynllun Datblygu Lleol 3 (CDLl3) i ben o ddiwedd 2039 i 31 Mawrth 2040. Mae'r diwygio hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Cytundeb Cyflawni hefyd gael ei ddiwygio.

## 8. Rhestr o’r tâl a godir am y gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio Dewisol Anstatudol

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu’r cynnig i gynyddu'r ffioedd a godir am y gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio anstatudol dewisol a gynigir gan yr Awdurdod. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cyflwyno gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio anstatudol fis Ebrill 2024 a bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn amlygu’r pwysau chwyddiant ac yn sicrhau bod gwahaniaeth yn parhau rhwng y ffioedd am y gwasanaeth cyn-ymgeisio statudol oedd eisoes wedi'u diweddaru.

Holodd Aelod a oedd unrhyw adborth wedi'i gasglu oddi wrth y rhai oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn flaenorol i ddeall a oedd y cyhoedd yn ystyried bod y gwasanaeth yn wasanaeth gwerthfawr. Cadarnhawyd, er nad oedd unrhyw waith arolwg ffurfiol wedi'i gynnal, bod y Swyddogion wedi derbyn adborth cadarnhaol yn uniongyrchol a bod asiantau wedi defnyddio'r gwasanaeth ar sawl achlysur, a ystyriwyd yn gadarnhaol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r cynnydd arfaethedig yn caniatáu i'r tîm dalu eu costau am ddarparu'r gwasanaeth anstatudol. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn gwneud colled ar ei wasanaeth cyngor cyn-ymgeisio statudol gan nad oedd y tâl a godir yn amlygu'r costau.

Holodd yr Aelodau a oedd gan y tîm Rheoli Datblygu ddigon o adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth o fewn yr amseroedd penodedig. Cadarnhawyd bod staff ychwanegol wedi'u recriwtio i'r tîm ac er bod llwyth gwaith y gwasanaeth statudol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, barnwyd bod gan y tîm ddigon o adnoddau i reoli'r ddau wasanaeth yn effeithiol. Ychwanegwyd bod ymgynghorwyr wedi cael eu defnyddio yn ystod cyfnodau brig i ehangu capasiti'r tîm.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Ms H Gwenllian, **penderfynwyd** cytuno i gynyddu'r ffioedd a godir am wasanaeth cyngor cyn-ymgeisio anstatudol dewisol yr Awdurdod.

**9. Strategaeth Datblygu Aelodau**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Strategaeth ddiwygiedig ar Ddatblygu Aelodau oedd yn amlinellu'r dyletswyddau allweddol a'r blaenoriaethau strategol y byddai angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt i gynnal llywodraethu corfforaethol da. Ychwanegwyd mai yn 2019 y cafodd y Strategaeth ei hadolygu ddiwethaf.

Croesawodd yr Aelodau y Strategaeth ddiwygiedig a chytunwyd y byddai gweithredu'r Strategaeth yn effeithiol yn allweddol.

Ar gynnig y Cynghorydd C George, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** mabwysiadu'r Strategaeth Datblygu Aelodau ddiwygiedig.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:08am – 11:20am]

[Ymunodd y Cynghorydd M James â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol]

**10. Croeso Sir Benfro**

Croesawodd y Cadeirydd Emma Thornton, Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro, roddodd gyflwyniad ar waith Croeso Sir Benfro dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch gwerth Sefydliad Rheoli Cyrchfannau, y tueddiadau mewn twristiaeth yn 2025, materion arwyddocaol a gyflawnwyd rhwng 2020 a 2025, crynodeb o'r hyn oedd wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw, a blaenoriaethau strategol ar gyfer 2025/26.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y nifer o Aelodau'r sefydliad oedd wedi parhau â'u haelodaeth (83%) a'r rhesymau pam y byddai busnesau yn dewis peidio ag adnewyddu eu haelodaeth. Cadarnhawyd mai'r achosion cyffredin dros Aelodau yn gadael oedd busnesau yn cau, y gost, a'r canfyddiad am ddiffyg gwerth. Ychwanegwyd bod tîm Croeso Sir Benfro yn gweithio i wella'r cyfraddau o ymgysylltu i sicrhau bod gan bob busnes fynediad at bob un o fuddion eu haelodaeth.

Trafododd yr Aelodau effaith gadarnhaol Croeso Sir Benfro ar Sir Benfro, yr heriau y mae busnesau yn eu hwynebu, a'r angen i'w cefnogi drwy gyfnodau anodd.

**Nodwyd.**

## 11. Eithrio'r cyhoedd

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gallai gwybodaeth sensitif yn fasnachol gael ei rhannu, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** i eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

## 12. Cymorth i Ironman Cymru

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau ar y camau nesaf o ran cymorth ariannol yr Awdurdod i'r gystadleuaeth Ironman Cymru o 2027-2029.
Trafododd yr Aelodau y buddiannau sy'n deillio o gynnal y digwyddiad i economi'r ardal gydol y flwyddyn a'i werth mewn marchnata Sir Benfro i gynulleidfa ryngwladol. Hefyd bu'r Aelodau yn ystyried sefyllfa ariannol yr Awdurdod, a'r risgiau o beidio â chynorthwyo'r digwyddiad yn ariannol, a'r posibilrwydd y byddai trefnwyr y digwyddiad yn dewis lleoliad arall pe na bai cymorth ariannol ar gael iddynt.

Cytunwyd, petai cymorth ariannol yn parhau i gael ei roi i Ironman Cymru, y dylid cynnwys amodau ychwanegol yn y cytundeb megis

cydnabyddiaeth briodol i'r Awdurdod, mynediad at ddelweddau o'r Parc Cenedlaethol, ac achrediad amgylcheddol ar gyfer y digwyddiad.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** bod APCAP yn rhoi lefel is o gymorth ariannol o £15.4K tuag at gynnal Ironman Cymru am y cyfnod 2027 i 2029 yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. Y dylai Ironman Cymru weithio tuag at lwyddo i gyflawni system gydnabyddedig o reoli cynaliadwyedd digwyddiad, megis ISO 20121, erbyn 2027.
2. Bod gan APCAP fynediad hirdymor at ddelweddau ffotograffig a fideo sy'n gysylltiedig â chynnal Ironman Cymru i helpu i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol.
3. Bod brand yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymddangos yn amlwg ar holl farchnata Ironman Cymru (manylion llawn i'w trafod a'u cytuno gyda threfnwyr y digwyddiad).

[Gadawodd Ms H Gwenllian, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd C Williams y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**13. Caffael Gwarchodfa Natur Rosemoor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth adroddiad oedd yn amlinellu’r cynnig i gaffael Gwarchodfa Natur Rosemoor, yn amodol ar sicrhau diwydrwydd dyladwy terfynol ar y materion cyfreithiol ac ariannol. Gofynnwyd am i’r Aelodau awdurdodi’r Swyddogion i fwrw ymlaen â thrafodaethau gyda'r tirfeddiannwr presennol a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau'r trosglwyddo. Dywedwyd y byddai'r caffael yn cyd-fynd ag amcanion Cadwraeth a Hinsawdd yr Awdurdod ac y byddai'n cyfrannu at y targed o ddiogelu 30% o dir ar gyfer byd natur erbyn 2030.

Rhoddodd y Swyddog gyflwyniad oedd yn rhoi manylion y cynnig a'r gwaith oedd eisoes wedi'i wneud ar y safle gan yr Awdurdod hyd yn hyn ynghyd â'r camau nesaf. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys manylion am leoliad y safle a'r manteision a'r risgiau posibl o'r caffael.

Roedd yr Aelodau o blaid y cynnig mewn egwyddor ac yn cydnabod buddiannau’r caffael. Serch hynny, roeddent hefyd wedi trafod y risgiau posibl o ran y gronfa ddŵr sydd ar y safle. Fel yr awgrymwyd gan y Swyddog, cytunwyd y dylid cynnal adroddiad cynhwysfawr ar y gronfa ddŵr cyn bwrw ymlaen â'r caffael, er mwyn llwyr ddeall lefel y risg.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd**:

i. Cymeradwyo'r bwriad i gaffael Gwarchodfa Natur Rosemoor mewn egwyddor, yn amodol ar sicrhau diwydrwydd dyladwy terfynol ar y materion cyfreithiol ac ariannol.
ii. Awdurdodi'r swyddogion i fwrw ymlaen â'r trafodaethau gyda pherchennog y tir presennol a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau'r trosglwyddo, ac i ddod â phapur yn ôl i'r Aelodau i gymeradwyo'r caffael.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026 heb eu diwygio. |